


'Dim ond ein gorau glas sy'n ddigon da.'

# Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethol i Rieni

# 2024-2025

**Adroddiad Llawn:**

## 1. CROESO

Croeso i'r flwyddyn ysgol newydd yn Ysgol Bryniago. Bydd yr adroddiad hwn yn sôn wrthych am flwyddyn academaidd 2024-2025, gan adrodd am y cynnydd sy'n cael ei sicrhau, digwyddiadau'r flwyddyn, y safonau academaidd a'r ffordd y mae'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr yn rheoli'r Ysgol.

## 2. GAIR GAN GADEIRYDD Y CORFF LLYWODRAETHOL

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol Corff Llywodraethu Ysgol Bryniago 2024-2025 i'r rhieni. Hyderaf y byddwch yn ei weld yn ddiddorol ac yn gynhwysfawr.
Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn llwyddiannus iawn i Ysgol Bryniago. Roedd Eisteddfod yr Urdd yng Ngorllewin Morgannwg ac roedd yn fendigedig gweld yr Ysgol yn cystadlu mewn amrywiaeth eang o gystadlaethau llwyfan. Roedden ni'n falch iawn i weld unigolion, Dyfan Jones, Leila Finney a Nia Horan yn ogystal a grwp llefaru Blwyddyn 6 ac iau a grwp perfformiad theatrig Blwyddyn 6 ac iau yn cyrraredd y rownd cenedlaethol. Roedd eu perfformiadau o safon uchel iawn. Hoffwn ddiolch i'r holl staff a fu wrthi yn hyfforddi'r plant.

Un o uchafbwyntiau 2024-2025 oedd agor Canolfan Iago. Agorodd y ganolfan fel darpariaeth ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Rydym yn falch iawn bod Cyfleuster Addysg Arbenigol cyfrwng Cymraeg wedi agor ar gyfer clwstwr o ysgolion Gwyr ym Medi 2025.

Bu aelodau'r Corff Llywodraethu ar sawl ymweliad â'r ysgol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a byddwn yn parhau i ymweld â'r ysgol mor aml ag y gallwn. Mae'n brofiad pleserus tu hwnt gallu ymweld â'r ysgol a chwrdd â'r staff a'r disgyblion.

Gwnaethom ffarwelio gyda rhai o staff yr Ysgol yn ystod 2024-2025 hefyd. Roedden ni'n wirioneddol drist gweld Mrs. Killa yn gadael Ysgol Bryniago, ac hoffem fynegi ein diolchgarwch diffuant am ei hymroddiad a'i gwaith caled dros y 20 mlynedd diwethaf. Mae ei chyfraniadau wedi bod yn amhrisiadwy, ac mae wedi cael effaith gadarnhaol

ar fywydau llawer o ddisgyblion. Dymunwn y gorau iddi yn y dyfodol. Bydd Mrs Killa wastad yn rhan pwysig o deulu Ysgol Bryniago. Ffarweliodd yr Ysgol hefyd gyda Mr Phil Gealy wedi dros i un ar ddeg mlynedd o weithio yn Ysgol Bryniago. Gweithiodd Mr Gealy mewn amrywiaeth o ddosbarthiadau ar hyd y blynyddoedd a mae wedi cyffwrdd a sawl calon. Mae wedi cynorthwyo'r ysgol gryn dipyn ym myd chwaraeon dros y blynyddoedd– yn enwedig wrth iddo fynd a'r plant i wahanol gystadlaethau. Aelod arall o staff yr Ysgol wnaeth adael yn ystod 2024-2025 oedd Mrs Sue Miller. Bu Mrs Miller yn gweithio yn Ysgol Bryniago am nifer fawr o flynyddoedd– yn gofalu am y plant yn y clwb brecwast, yn ystod amser cinio ac yn glanhau'r ysgol hefyd! Diolch yn fawr Sue, am fod yn rhan o deulu Ysgol Bryniago.

Bu Miss Lucy Miller yn gweithio am gyfnod byr yn yr ysgol yn ystod 2024-2025. Hoffem ddiolch iddi am ei gwaith fel cynorthwyydd dysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Hoffwn ddiolch i bob un ohonoch, rhieni, gofalwyr, neiniau a theidiau/ mamgu's a thadcu's a'ch plant am eich cefnogaeth barhaus i'r ysgol dros y flwyddyn ddiwethaf. Hoffwn ddiolch i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu holl ymdrechion codi arian drwy'r flwyddyn, heb y cymorth ariannol hwn ni fyddem yn gallu prynu adnoddau sydd eu hangen yn fawr ar yr ysgol.

Mae Ysgol Bryniago yn gymuned ac edrychaf ymlaen at barhau i gydweithio i sicrhau'r ddarpariaeth orau bosibl i'n plant. Os oes gan unrhyw un a chwestiwn ynglŷn â gwaith y Corff Llywodraethol cysylltwch â mi drwy'r ysgol.
Mae'r llywodraethwyr yn cyfarfod yn rheolaidd bob tymor. Cynhelir oleiaf un cyfarfod llawn o'r corff llywodraethol bob tymor. Yn ogystal â hyn, cynhelir nifer o is-bwyllgorau hefyd. Mae'r is-bwyllgor cyllid ar y cyd gyda swyddog ariannol yr AALl yn cadw llygaid barcud ar gyllid yr ysgol. Mae cynnal cyllid yr ysgol yn mynd yn fwy heriol bob blwyddyn. Mae'r is-bwyllgor iechyd a diogelwch yn sicrhau bod yr adeilad a'r safle yn ddiogel ar gyfer eich plentyn/ plant. Mae'r is-bwyllgor cwricwlwm yn gweithio gyda'r ysgol i sicrhau bod safon y dysgu a'r addysgu yn safnonol ac yn ateb y gofynnion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda'r Swyddog Gwella ysgol, Mrs Nia Ward i barhau i godi safonau a rheoli perfformiad.

Mae'r Cynllun Datblygu Ysgol a'r Adroddiad Hunan-Arfarnu yn parhau i roi cyfeiriad strategol i'r ysgol ac yn rhoi cyfle gwirioneddol i'r Corff Llywodraethol herio a chefnogi holl aelodau arweinyddiaeth yr ysgol.

Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn ddiddorol ac yn llawn gwybodaeth i chi.

Mrs Karen Thomas

## 3. Datganiad o Weledigaeth Cymuned Ysgolion Gwyr

I Gymuned Ysgolion Gwyr, y dysgwr sydd wrth wraidd holl weithgarwch, prosesau a threfniadaeth ein hysgolion. Ein nod yw cynnig cwricwlwm deinamig, perthnasol a phwrpasol sy'n tanio'r angerdd am ddysgu yn ein dysgwyr. Bydd ein cwricwlwm yn cynnig profiadau eang, gwerthfawr a chofiadwy i'n dysgwyr. Bydd yn eu grymuso i adeiladu ar eu sgiliau a'u gwybodaeth blaenorol gan gynnig iddynt brofiadau ysgogol a chyfoethog wrth iddynt ddilyn llwybr eu haddysg. Byddant yn cael eu herio i brofi llwyddiant. Bydd bob plentyn yn cael mynediad cyflawn at y profiadau, y wybodaeth a'r sgiliau y mae eu hangen arnyn nhw ym myd gwaith, ar gyfer dysgu gydol oes ac er mwyn bod yn ddinasyddion gweithredol. Yn ganolog i'n cwricwlwm cynhwysol mae ein hymrwymiad i ddatblygu meddylfryd a pherthnasoedd cadarnhaol fel bod ein dysgwyr yn ffynnu yn unigolion iach ac hyderus. O dan ein gofal a'n harweiniad bydd ein cwricwlwm yn datblygu ein dysgwyr i fod yn ddinasyddion annibynnol a chydweithredol a fydd yn barod i gerdded ymlaen yn hyderus yn eu cymuned leol, Cymru a'r byd ehangach. Ysgogwn ein plant i deimlo balchder am eu gwlad a'u hiaith ac i drysori eu hetifeddiaeth a'u diwylliant a hynny er mwyn ehangu eu gorwelion i werthfawrogi diwylliannau a thraddodiadau byd eang.

## 3. GWYBODAETH AM GYFARFOD BLYNYDDOL Y CORFF GYDA RHIENI

Yn y gorffennol, roedd yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni. Fodd bynnag, cafodd y gofyniad hwn ei ddileu gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Yn ei le, cyflwynwyd trefniadau newydd sy'n galluogi rhieni i ofyn am hyd at dri chyfarfod gyda'r corff llywodraethu mewn unrhyw flwyddyn ysgol, i drafod materion sy'n peri pryder iddynt.

Yn ystod 2024–2025, ni chafwyd unrhyw geisiadau gan rieni am gyfarfod o'r fath.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

llywodraethu:http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/parents-meetingsstatutory-guidance/?lang=cy

Os oes gennych unrhyw gwestiynau yn deillio o'r adroddiad hwn yna mae croeso i chi gysylltu gyda'r ysgol.

## 4. CATEGORI IAITH YR YSGOL A DEFNYDD O'R IAITH

Ysgol gynradd benodedig Gymraeg yw Ysgol Bryniago, sy'n gwasanaethu tref Pontarddulais a'r pentrefi cyfagos: Garnswllt, Pontlliw a Waungron. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng tair ac un ar ddeg mlwydd oed.

Gan fod agwedd y plentyn tuag at iaith yn ganolog i'w ddatblygiad ieithyddol, rydym yn gwneud pob ymdrech i feithrin parch ac ymrwymiad tuag at yr iaith Gymraeg. Rhoddir pwyslais arbennig ar elfen ddiwylliannol Gymreig, gan sicrhau bod plant yn datblygu ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn.

Y Gymraeg yw iaith gymdeithasol yr ysgol, ac anogir disgyblion i'w defnyddio'n naturiol drwy gydol y dydd – yn enwedig y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae hyn yn hollbwysig i blant sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg, gan eu helpu i ddatblygu rhuglder a hyder yn y Gymraeg.

Yn y Meithrin, trwythir y plant yn y Gymraeg, ac mae Bryniago Bach yn gweithredu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyflwynir yr iaith Saesneg yn raddol yn nhymor olaf Blwyddyn 2, drwy gyd-ddarllen, trafod ac ymarfer patrymau sillafu sylfaenol. Yn ystod y blynyddoedd ym Mryniago Mawr, datblygir Saesneg fel ail gyfrwng, ond mae'r Gymraeg yn parhau i fod yn brif gyfrwng dysgu ar draws y Cwricwlwm.

Erbyn i'r disgyblion gyrraedd oed trosglwyddo i'r ysgol uwchradd, disgwylir iddynt fod yn rhugl ddwyieithog, gyda'r gallu i ddilyn unrhyw bwnc drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

## 5. Y CORFF LLYWODRAETHU

Mae'r Llywodraethwyr yn gweithio'n agos gyda'r Pennaeth a staff yr ysgol i sicrhau bod Ysgol Bryniago yn darparu addysgu a dysgu o safon uchel, gan gyfrannu'n uniongyrchol at godi safonau ar draws y ysgol.

Mae'r Corff Llywodraethu yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod yr ysgol yn atebol i rieni, y gymuned leol ac i'r awdurdod lleol. Maent yn gwneud hyn mewn ffordd dryloyw, gan fonitro canlyniadau ac asesu sut mae adnoddau'r ysgol yn cael eu neilltuo a'u defnyddio'n effeithiol.

## 6. AELODAETH Y CORFF LLYWODRAETHU

| | |
|---|---|
| Mrs Karen Thomas<br>Cadeirydd/ Chair | Llywodraethwr/wraig Cymunedol<br>Community Governor |
| Ms Elen Jones<br>Is-gadeirydd/ Vice-chair | Llywodraethwr/wraig AALl<br>LA Governor |
| Mrs Bethan Roberts | Rhiant Lywodraethwr/wraig<br>Parent Governor |
| Mrs Siân Breeden | Rhiant Lywodraethwr/wraig<br>Parent Governor |
| Mrs Sharon Thomas | Rhiant Lywodraethwr/wraig<br>Parent Governor |
| | Rhiant Lywodraethwr/wraig<br>Parent Governor |
| Mrs Ann Biston | Llywodraethwr/wraig Cymunedol<br>Community Governor |
| Ms Gwenda West | Llywodraethwr/wraig Cymunedol<br>Community Governor |

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Rhian Harries | Llywodraethwr/wraig cymunedol ychwanegol<br><br>Additional Community Governor |
| Mrs Luned Jones | Athro-Lywodraethwr/wraig<br><br>Teacher Governor |
| Miss Rhiannon Evans | *Staff-lywodraethwr/wraig*<br><br>*Staff Governor* |
| Miss Nia Jones | Pennaeth<br><br>Head teacher |
| Mrs Rhian Gealy | Clerc<br><br>Clark |

**Gwybodaeth cysylltu gyda chlerc y corff:**

| Clerc y Corff Llywodraethu | Cyfeiriad | Ffôn | ebost |
|---|---|---|---|
| Mrs Rhian Gealy | YGG Bryniago,<br>Stryd Iago Isaf,<br>Pontarddulais,<br>Abertawr<br>SA4 8JA | 01792 882012 | Ygg.bryniago@swansea-edunet.gov.uk |

**Gwybodaeth cysylltu gyda Chadeirydd y corff:**

| Cadeirydd y Corff Llywodraethu | Cyfeiriad | Ffôn | ebost |
|---|---|---|---|
| Mrs Karen Thomas | YGG Bryniago,<br>Stryd Iago Isaf,<br>Pontarddulais,<br>Abertawr<br>SA4 8JA | 01792 882012 | Ygg.bryniago@swansea-edunet.gov.uk |

Cynhaliwyd cyfarfodydd llawn o'r corff ar y dyddiadau canlynol:

- 01.10.2024
- 26.11.2024
- 11.03.2025
- 17.06.2025

Y mae'r is-bwyllgorau hefyd wedi cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn:-

Is bwyllgor cyllid; rheoli perfformiad, cwricwlwm ac Anghenion Addysg Argbennig, ac adeiladau a iechyd a diogelwch.

| **Llywodraethwyr gyda chyfrifoldebau arbennig:** | |
|---|---|
| **2024-2025:** | **2025-2026:** |
| **Anghenion Dysgu Ychwanegol:**<br>Ms Gwenda West<br>**Diogelu ac Amddiffyn Plant:**<br>Mrs Karen Thomas<br>**Plant Mewn Gofal (PMG):**<br>Cllr. Rhian Harries<br>**Iechyd a Diogelwch:**<br>Mrs Ann Biston<br>**E-ddiogelwch:**<br>Ms Elen Jones<br>**Rheoli data:**<br>Mrs Sian Breeden<br>**Pencampwr Ceri:**<br>Mrs Karen Thomas<br>**Siarter Iaith:**<br>Ms Elen Jones | **Anghenion Dysgu Ychwanegol:**<br>Ms Gwenda West<br>**Diogelu ac Amddiffyn Plant:**<br>Mrs Karen Thomas<br>**Plant Mewn Gofal (PMG):**<br>Cllr. Rhian Harries<br>**Iechyd a Diogelwch:**<br>Mrs Ann Biston<br>**E-ddiogelwch:**<br>Ms Elen Jones<br>**Rheoli data:**<br>Mrs Sian Breeden<br>**Pencampwr Ceri:**<br>Mrs Sian Breeden<br>**Siarter Iaith:**<br>Ms Elen Jones |

Ni hawliwyd unrhyw gostau gan Lywodraethwyr am deithio na chynhaliaeth yn ystod y flwyddyn academaidd diwethaf.

## 7. STAFF

| **Pennaeth/Head teacher**<br>Miss. Nia Jones | **2025-2026** |
|---|---|
| **Staff dysgu**<br><br>**Teaching staff** | **Meithrin** Miss Hannah-Wyn Selwood<br><br>**Derbyn** Miss Lowri Morgan<br><br>**Blwyddyn 1** Mrs Carys Jones<br><br>**Blwyddyn 2** Mrs Luned Jones<br><br>**Blwyddyn 3** Miss Angharad Treharne<br><br>**Blwyddyn 4/5** Mr. Iwan Jones<br><br>**Blwyddyn 5/6** Mrs. Louise Singleton<br><br>**Canolfan Iago** Mrs. Sara Bunyan<br><br>**CPA:**<br><br>**Bryniago Bach:** Miss Hannah-Wyn Selwood, Miss Rebecca Wilson, Mrs Tara Francis<br><br>**Bryniago Mawr:** Mrs Sioned Evans<br><br>**Canolfan Iago:** Miss Laura Kaltenbach |
| **Staff cymorth dosbarth**<br><br>**TA's** | **Meithrin bore:** Mrs Jackie Francis, Miss Rebecca Wilson<br><br>**Meithrin prynhawn:**<br><br>**Derbyn:** Mrs Alyssa Williams<br><br>**Blwyddyn 1:** Mr Harrison Garcia<br><br>**Blwyddyn 2:** Mrs Tara Jones<br><br>**Blwyddyn 3:** Mrs Caryl Richards, *Miss Lilli Gibbs*<br><br>**Blwyddyn 4/5:** Miss Rhiannon Evans<br><br>**Blwyddyn 5/6:** Mr Llyr Evans<br><br>**Canolfan Iago:** Miss Laura Kaltenbach, Miss Catrin Thomas |
| **Ysgrifenyddes:**<br>**Secretary** | Mrs Rhian Gealy |

<table>
<tr><td>Gofalwr/ Caretaker</td><td>Mr Sion Davies</td></tr>
<tr><td>Glanhawyr/ Cleaners</td><td>Mrs Ann-Marie Edmonds, Mrs Rhian Jones<br><br>Mr Sion Davies</td></tr>
<tr><td>Cogyddes/ Cook</td><td>Mrs Ann-Marie Edmonds</td></tr>
<tr><td>Staff y gegin:/ Kitchen staff</td><td>Mrs. Rhian Jones.</td></tr>
<tr><td>Gofalwyr cinio:/ Lunchtime supervisors</td><td>
<table>
<tr><th>Canteen</th><th>D</th><th>1</th><th>2</th><th>3</th><th>4</th><th>5</th><th>6</th></tr>
<tr><td></td><td>Mrs Alyssa Williams</td><td>Mr Harrison Garcia</td><td>Mrs Tara Jones</td><td>Miss Lilli Gibbs</td><td>Mr Sion Davies</td><td>Miss Rhiannon Evans</td><td>Mr Llyr Evans</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="3">Miss Rebecca Wilson</td><td colspan="4">Miss Nia Jones</td></tr>
</table>
</td></tr>
<tr><td>Gofalwyr Clwb Brecwast:/ Breakfast club staff</td><td>Mrs. Heather James, Mr Llyr Evans, Mrs Nicola Komolavanij</td></tr>
</table>

## 8. CYNGOR YSGOL AC ECO GYNGOR

Mae Cyngor Ysgol Bryniago yn gymuned o blant sy'n cael eu hethol gan eu cymheiriaid ar ddechrau pob blwyddyn academaidd. Ei nod pennaf yw sicrhau bod gan bob plentyn yn yr ysgol lais clir a chyfle i gyfrannu at fywyd ysgol.

Mae pob dosbarth o Flwyddyn 2 hyd at Flwyddyn 6 yn ethol un cynrychiolydd, gyda disgyblion Blwyddyn 6 yn ymgymryd â'r rôl o gadeirio'r cyngor. Ar ddechrau'r flwyddyn, mae'r aelodau'n cydweithio i osod targedau penagored. Trwy drafodaethau rheolaidd rhwng aelodau'r cyngor a'u dosbarthiadau, caiff camau gweithredu eu cynllunio a'u gweithredu er mwyn gwireddu'r targedau hyn – gan gyfrannu'n uniongyrchol at wella profiadau'r disgyblion yn yr ysgol.

Mae'r Eco-Gyngor yn gyfrifol am gynrychioli'r dosbarth mewn materion sy'n ymwneud â'r amgylchedd a chynaliadwyedd. Rydym yn cwrdd yn achlysurol i drafod unrhyw bryderon neu adborth gan y disgyblion, gan sicrhau bod llais eco'r ysgol yn cael ei glywed a'i weithredu.

## 9. NIFER Y DISGYBLION A THROSGLWYDDO DISGYBLION

| | Ysgol Gyfan/ Whole School | Bechgyn Boys | Merched Girls | Meithrin/ Derbyn | Age 5-11 oed |
|---|---|---|---|---|---|
| 2024-2025 | 203 | 117 | 86 | 64 | 139 |

*Data Ionawr 2025

Trosglwyddwyd 32 o ddisgyblion ar ddiwedd Tymor yr Haf 2025 i addysg uwchradd. Mynychodd y 31 disgybl Ysgol Gyfun Gŵyr.

## 10. STRATEGAETH A PHOLISIAU

Mae'r Corff Llywodraethu wedi derbyn hunanarfarnu ysgol Bryniago ynghyd â Chynllun Datblygu'r Ysgol. Mae'r ddau ddogfen hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd drwy gyfarfodydd yr is-bwyllgorau a'r corff llawn.

Mae amserlen glir ar waith ar gyfer derbyn a chymeradwyo'r holl bolisïau statudol. Caiff y polisïau eu trafod yn gyntaf mewn cyfarfodydd is-bwyllgor, cyn cael eu cyflwyno'n derfynol i'r corff llawn. Mae'r polisïau hyn, ynghyd â dogfennaeth y Cynllun Datblygu Ysgol, ar gael yn yr ysgol ac ar wefan yr ysgol.

Mae'r llywodraethwyr yn cynnal ymweliadau achlysurol â'r ysgol i arsylwi sut mae'r polisïau'n cael eu gweithredu. Yn dilyn yr ymweliadau hyn, caiff unrhyw argymhellion eu rhannu gyda'r pennaeth, ac fe'u hymgorfforir yn y Cynllun Datblygu Ysgol.

## 11. TARGEDAU DATBLYGU'R YSGOL:

| TARGED: | ADRODDIAD DIWEDD BLWYDDYN: |
|---|---|
| Blaenoriaeth 1: **Gwreiddio dulliau asesu'r ysgol ymhellach gan ddarparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ar draws yr ysgol ymateb i adborth athrawon ac adnabod y cam nesaf yn eu dysgu**<br>**Parhaol** | Mae bron pob aelod o staff yn dilyn cynllun marcio'r ysgol yn gyson, gyda'r symbolau'n cael eu defnyddio'n effeithiol a'r disgyblion yn eu deall. Mae arferion da yn cynnwys ymateb disgyblion i adborth gan ddefnyddio peniau lliw, hunan-farcio, marcio cyfoed, a defnyddio MAC a meini prawf llwyddiant. Mae technegau newydd fel 'pit stops' a drafftio modelol yn dechrau cael eu defnyddio.<br><br>Mae cynnydd amlwg wedi'i wneud mewn cydymffurfiaeth, ansawdd adborth, ac ymateb y disgyblion, yn enwedig ym maes Mathemateg. Mae adborth mewn llythrennedd a themâu yn gwella, ond mae angen datblygiad pellach, yn enwedig yng Ngham Cynnydd 3. Mae Cam Cynnydd 2 yn defnyddio'r lindysyn asesu yn effeithiol i osod targedau.<br><br>Mae disgyblion yn fwy hyderus wrth drafod eu gwaith ac yn medru nodi ffyrdd o'i wella. Mae marcio ar y pryd yn cael effaith gadarnhaol, ac mae arferion hunan-werthuso yn datblygu annibyniaeth.<br><br>**Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol:**<br><br>• Ehangu arferion da ar draws yr ysgol.<br>• Cytuno ar strategaethau adborth ysgol gyfan.<br>• Gwella ymateb i adborth mewn llythrennedd ac ail-ddrafftio.<br>• Hyfforddiant ysgol gyfan wedi'i drefnu ar gyfer dechrau'r flwyddyn nesaf. |

<table>
<tr><th>TARGED:</th><th>ADRODDIAD DIWEDD BLWYDDYN:</th></tr>
<tr><td>Blaenoriaeth 2: Datblygu medrau dysgu annibynnol y disgyblion ieuengaf</td><td rowspan="3">Yn ystod y flwyddyn, mae'r ysgol wedi cydweithio'n agos ag athro arbenigol o'r Awdurdod Addysg Lleol, gyda phwyslais ar ddatblygiad plant ac addysgeg. Nod y bartneriaeth hon oedd meithrin dealltwriaeth ddyfnach ymhlith staff Bryniago Bach o'r Cwricwlwm i Gymru a'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau nas cynhelir.<br><br>Erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf o staff Cam Cynnydd 1 a 2 yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb, ynghyd ag egwyddorion allweddol y blynyddoedd cynnar megis chwarae, rôl yr oedolyn, a dyluniad amgylcheddau dysgu effeithiol. Mae'r hyfforddiant wedi arwain at welliannau sylweddol yn y ffordd y caiff profiadau dysgu eu cynllunio, gan arwain at ddiwygio polisi dysgu ac addysgu'r ysgol. Mae'r polisi newydd yn darparu arweiniad clir ar ddisgwyliadau ar draws Cam Cynnydd 1 a 2, gan sicrhau bod plant y blynyddoedd cynnar yn derbyn addysg sy'n gosod sylfeini cadarn ar gyfer dysgu gydol oes.<br><br>Mae oedolion yn Bryniago Bach bellach yn galluogi dysgu trwy gwestiynu effeithiol, arsylwi craff, ac annog lle bo angen. Er bod profiadau dysgu amrywiol yn cael eu cynnig yn fewnol, nodwyd bod angen gwneud defnydd mwy effeithiol o'r dosbarth allanol ar draws y camau cynnydd. Mae ymweliadau ag ysgolion eraill wedi amlygu'r angen i ddatblygu'r amgylchedd dysgu mewnol ac allanol ymhellach, er mwyn meithrin annibyniaeth ymhlith dysgwyr.<br><br>Mae'r ysgol wedi dechrau ymateb i'r her hon drwy archebu adnoddau, casglu deunyddiau rhad ac am ddim, ac uwchsgilio staff mewn meysydd penodol – megis datblygu chwarae rôl o fewn Cam Cynnydd 1 a 2.<br><br>Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd digonol tuag at y targedau a osodwyd. Mae dealltwriaeth staff o ddisgwyliadau a dulliau llwyddiannus mewn lleoliadau eraill wedi datblygu'n gadarn. Fodd bynnag, mae ansefydlogrwydd staffio wedi cael effaith ar gysondeb y cynnydd.<br><br>Yn edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf, bydd angen rhoi sylw pellach i:<br><br>• Wella'r amgylchedd dysgu, yn fewnol ac yn allanol.</td></tr>
<tr><td>Cyflawnwyd yn rhanol (mae angen parhau i godi safonau rhesymu)</td></tr>
<tr><td></td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | • Cynllunio profiadau sy'n ennyn diddordeb ac yn berthnasol i'r dysgwyr.<br>• Mireinio addysgeg Cam Cynnydd 1 a 2, gan gynnwys chwarae a dysgu trwy chwarae, dysgu dilys a phwrpasol, llythrennedd corfforol, a dysgu yn yr awyr agored. |

| TARGED: | ADRODDIAD DIWEDD BLWYDDYN: |
|---|---|
| Blaenoriaeth 3:<br>**Parhau i ddatblygu rol arweinwyr canol ymhellach fel eu bod yn arwain eu maes cyfrifoldeb yn annibynnol**<br><br>**Cyflawnwyd yn rhannol** | Yn ystod y flwyddyn, cydweithiodd yr ysgol â swyddogion o'r Awdurdod Addysg Lleol a'r rhanbarth i ddarparu cyfres o hyfforddiant i uwchsgilio arweinwyr canol. Mae'r hyfforddiant wedi arwain at welliant sylweddol yn eu gwybodaeth ac ymdealltwriaeth o hunanarfarnu, sicrhau ansawdd, a rheoli newid. Mae'r rhan fwyaf o'r arweinwyr bellach yn teimlo'n fwy hyderus ac yn gweithredu'n fwy strategol o fewn eu meysydd.<br><br>Erbyn diwedd Tymor y Gwanwyn 2025, roedd arweinwyr wedi datblygu dealltwriaeth gadarn o brosesau hunanwerthuso ac yn defnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Mae'r hyfforddiant wedi cael effaith gadarnhaol ar gynllunio strategol, monitro, craffu ar lyfrau, a chynnal sgyrsiau gyda dysgwyr.<br><br>**Cydweithio Clwstwr Gwyr**<br><br>Mae gweithgorau MDaPh Clwstwr Gwyr wedi bod yn llwyddiannus wrth ddatblygu arweinwyr newydd a rhannu arferion da. Canolbwyntiwyd ar fireinio'r continwwa dysgu, rhannu gwaith o fewn Meysydd Dysgu a Phrofiad, a datblygu portffolio dysgu clwstwr. Mae hyn wedi cryfhau cysondeb a dealltwriaeth rhwng ysgolion cynradd ac Ysgol Gyfun Gwyr. |

| | |
|---|---|
| | **Adborth o Holiadur Arweinwyr Canol – Haf 2025**<br><br>Mae'r mwyafrif o arweinwyr canol yn nodi bod ganddynt weledigaeth glir sy'n cyd-fynd â gwerthoedd yr ysgol. Maent yn teimlo'n hyderus wrth gynllunio cwricwlwm cytbwys, arwain addysgu o safon uchel, defnyddio gwybodaeth asesu i lywio cynllunio, ac yn rhannu arferion da. Mae'r hyfforddiant wedi cryfhau eu gallu i werthuso ansawdd a dylanwadu ar eu timau.<br><br>**Heriau a Blaenoriaethau**<br><br>Er gwaethaf y cynnydd, nodwyd heriau megis diffyg amser a'r angen am hyfforddiant pellach i rai arweinwyr newydd. Mae'r ysgol yn cydnabod yr angen i roi mwy o amser i arweinwyr ddefnyddio eu sgiliau'n effeithiol ac i weithredu'n fwy annibynnol y flwyddyn nesaf. |

| TARGED: | ADRODDIAD DIWEDD BLWYDDYN: |
|---|---|
| Blaenoriaeth 4: **Cefnogi lles emsoiynol dysgwyr trwy wreiddio strategaeth WOWW ar draws yr ysgol a chyflwyno strategaeth hyfforddiant ar emosiynau i gefnogi'r dysgwyr bregus.** | Mae'r ysgol wedi sefydlu gweithdrefnau newydd i adnabod, monitro ac ymateb i ymddygiad lefel is. Defnyddir y dystiolaeth hon yn effeithiol ar gyfer cyfeirio at asiantaethau allanol, trafodaethau gyda rhieni, ac wrth wneud penderfyniadau am Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).<br><br>Trwy gydweithio agos ag asiantaethau allanol, mae sgiliau'r staff wedi datblygu'n sylweddol wrth gefnogi disgyblion ag anghenion |

| | |
|---|---|
| **Cyflawnwyd yn rhannol** | emosiynol dwys. Mae bron pob aelod o staff yn deall erbyn hyn fod ymddygiad heriol yn aml yn adlewyrchu emosiynau megis gorbryder, dicter neu dristwch. Mae'r staff wedi derbyn strategaethau penodol, gan gynnwys dulliau trafodaeth adferol, ac mae ganddynt stôr o strategaethau i gefnogi plant bregus.<br><br>Defnyddir strategaethau megis byrddau "nawr, nesaf, wedyn", amserlenni gweledol a siartiau ymddygiad yn eang ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol hefyd wedi gwneud defnydd effeithiol o'r fforwm ymddygiad sirol i drafod achosion unigol ac i dderbyn strategaethau pellach i wella ymddygiad.<br><br>Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da tuag at y targedau a osodwyd, gan gryfhau gallu'r staff i ymateb yn sensitif ac effeithiol i anghenion emosiynol a heriau ymddygiadol disgyblion. |

**Targedau'r ysgol am 2025-2026:**

*Dyma'r targedau bydd yr ysgol yn ffocsyu arno yn ystod y flwyddyn:*

- Parhau i ddarparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ar draws yr ysgol ymateb i adborth athrawon ac adnabod y cam nesaf yn eu dysgu trwy weithredu strategaethau cytun yr Ysgol yn llawn.
- Parhau i ddatblygu medrau dysgu annibynnol y disgyblion ieuengaf drwy:

- Dylunio profiadau dysgu deniadol sy'n ysbrydoli chwilfrydedd a mentergarwch

- Mewnblannu pedagogiaeth o ansawdd uchel sy'n meithrin dysgu hunangyfeiriedig

- Cryfhau rôl arweinwyr canol drwy sicrhau eu bod yn arwain eu meysydd cyfrifoldeb yn hyderus ac yn annibynnol, gan:
- Dangos arweinyddiaeth strategol glir yn eu maes
- Monitro a gwerthuso effaith ar ddysgu a safonau
- Cyfrannu'n weithredol at gynllunio a chyflawni blaenoriaethau'r Ysgol
- Cefnogi dai ddatblygu tblygiad proffesiynol cydweithwyr yn eu timau
- Sicrhau cynnydd cadarn, mesuradwy a chynaliadwy yn safonau llythrennedd Cymraeg, llythrennedd Saesneg a rhifedd ar draws pob blwyddyn ysgol, drwy weithredu strategaethau addysgu wedi'u targedu sy'n meithrin sgiliau sylfaenol yn gyson, yn effeithiol ac yn gydlynol.

Yn ogystal, bydd yr ysgol hefyd yn:

Gweithredu strategaethau ymddygiad cyson dan arweiniad oedolion i leihau aflonyddwch lefel isel ac i feithrin diwylliant ysgol cadarnhaol.

## 12. DYDDIADAU'R YSGOL:

2024-2025:

**Dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgol 2023/2024**

| Tymor | Tymor yn dechrau | | Gwyliau hanner tymor - dechrau | Gwyliau hanner tymor - gorffen | | Tymor yn gorffen | Dyddiau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Hydref 2023 | Dydd Gwener 1 Medi | Dydd Gwener 27 Hydref | Dydd Llun 30 Hydref | Dydd Gwener 3 Tachwedd | Dydd Llun 6 Tachwedd | Dydd Gwener 22 Rhagfyr | 76 |
| Y Gwanwyn 2024 | Dydd Llun 8 Ionawr | Dydd Gwener 9 Chwefror | Dydd Llun 12 Chwefror | Dydd Gwener 16 Chwefror | Dydd Llun 19 Chwefror | Dydd Gwener 22 Mawrth | 50 |
| Yr Haf 2024 | Dydd Llun 8 Ebrill | Dydd Gwener 24 Mai | Dydd Llun 27 Mai | Dydd Gwener 31 Mai | Dydd Llun 3 Mehefin | Dydd Gwener 19 Gorffennaf | 69 |
| Cyfanswm | | | | | | | 195 |

2025-2026:

**Dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgolion 2025 / 2026**

| Tymor | Tymor yn dechrau | Gwyliau hanner tymor - dechrau | Gwyliau hanner tymor - gorffen | Tymor yn gorffen |
|---|---|---|---|---|
| Yr Hydref 2025 | Dydd Llun 1 Medi 2025 | Dydd Llun 27 Hydref 2025 | Dydd Gwener 31 Hydref 2025 | Dydd Gwener 19 Rhagfyr 2025 |
| Y Gwanwyn 2026 | Dydd Llun 5 Ionawr 2026 | Dydd Llun 16 Chwefror 2026 | Dydd Gwener 20 Chwefror 2026 | Dydd Gwener 27 Mawrth 2026 |
| Yr Haf 2026 | Dydd Llun 13 Ebrill 2026 | Dydd Llun 25 Mai 2026 | Dydd Gwener 29 Mai 2026 | Dydd Llun 20 Gorffennaf 2026 |

## 13. AMSER ADDYSGU

Er mwyn cynnal ansawdd cyson ar draws pob un o bynciau'r cwricwlwm a sicrhau cydbwysedd yn y cwricwlwm mae Ysgol Gymraeg Bryniago yn sicrhau y dyrennir digon o amser i bob agwedd o'r cwricwlwm er mwyn cwrdd â gofyion statudol ac adlewyrchu ein hanghenion a'n blaenoriaethau ein hunain.

| | Meithrin Bore | Meithrin Prynhawn | Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 | Canolfan Iago | Blwyddyn 3-Blwyddyn 6 |
|---|---|---|---|---|---|
| Sesiynau yn ystod y diwrnod | 8:50 – 11.20 (Sesiwn Bore) | 12:50-15:20 (Sesiwn prynhawn) | **Sesiwn 1:** 8:50 – 10.15 **Sesiwn 2:** 10.30 – 11:35 **Sesiwn 3:** 12:50 – 2.10 **Sesiwn 4:** 2.20 – 3.20 | **Sesiwn 1:** 09:00 – 10.15 **Sesiwn 2:** 10.30 – 11:35 **Sesiwn 3:** 12:50 – 2.00 **Sesiwn 4:** 2.00 – 3.00 | **Sesiwn 1:** 8:50 – 10.15 **Sesiwn 2:** 10.30 – 11:50 **Sesiwn 3:** 12:50 – 2.00 **Sesiwn 4:** 2.00 – 3.20 |
| Cyfanswm amser sesiwn bob dydd | 2awr 30 mun | 2awr 30 mun | **Sesiwn 1**: 1 awr 25 munud **Sesiwn 2**: 1 awr 5 munud **Sesiwn 3**: 1 awr 20 munud **Sesiwn 4**: 1 awr | **Sesiwn 1**: 1 awr 15 munud **Sesiwn 2**: 1 awr 5 munud **Sesiwn 3**: 1 awr 10 munud **Sesiwn 4**: 1 awr | **Sesiwn 1**: 1 awr 25 munud **Sesiwn 2**: 1 awr 20 munud **Sesiwn 3**: 1 awr 10 munud **Sesiwn 4**: 1 awr 20 munud |
| Cyfanswm amser sesiwn bob wythnos | 12 awr a 30 munud | 12 awr a 30 munud | 24 awr a 10 munud | 22 awr a 30 munud | 26 awr 15 munud |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Amser bob wythnos ar gyfer cofrestru a chydaddoli | 50 munud | | 2 awr 30 munud | 1 awr 30 munud | 2 awr 30 munud |

## 14. DISGWYLIADAU ASESU:

Fel rhan o asesu dysgwyr ar gyfer tymor yr haf 2024, gwnaeth Ysgol Bryniago y canlynol:

- Defnyddio asesu parhaus yn yr ystafell ddosbarth i gefnogi ar draws yr ysgol i wneud cynnydd effeithiol drwy gydol y cwricwlwm presennol.
- Sicrhau bod dysgwyr ym Mlynyddoedd 2 i 6 yn cymryd asesiadau personol Darllen, Rhifedd (Gweithdrefnol) a Rhifedd (Rhesymu).

**Asesiadau Darllen a Rhifedd:**

Cafodd plant Blwyddyn 2-6 YGG Bryniago eu hasesu o fewn:

· Darllen Cymraeg

· Darllen Saesneg (Bl.3-6)

· Rhifedd gweithdrefnol

· Rhifedd Rhesymegol

Gallwch ddysgu mwy am yr asesiadau personol trwy glicio yma.

Derbyniodd rhieni plant Blwyddyn 2-6 adborth am asesiadau eu plentyn.

Gallwch ddysgu mwy am yr adborth trwy glicio yma.

Mae mwy o wybodaeth am yr asesiadau personol ar gael trwy glicio yma.

**Canlyniadau Asesiadau Darllen a Rhifedd 2025 YGG Bryniago:**

Mae data asesiadau personol 2025 YGG Bryniago yn dangos safonau uchel ar draws nifer o feysydd, gyda thueddiadau cadarnhaol yn arbennig ym meysydd

Rhifedd a Rhesymu. Mae perfformiad disgyblion Blwyddyn 2 yn arbennig o gadarnhaol, gyda 92% yn perfformio uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y maes Cymraeg, a dim ond 4% yn is. Yn Rhifedd, mae 83% o'r disgyblion yn perfformio'n uwch, gan adlewyrchu dealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol. Er bod 70% yn perfformio'n uwch yn Rhesymu, mae 17% yn is na'r cyfartaledd, sy'n awgrymu bod angen ymyrraeth benodol ar gyfer y grŵp hwn.

Ym Mlwyddyn 3, mae'r darlun yn fwy cymysg. Mae perfformiad yn Rhifedd (56%) a Rhesymu (63%) yn dangos cynnydd ers 2024, ond mae Cymraeg yn peri pryder gyda 44% o'r disgyblion yn perfformio'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, a gostyngiad sylweddol o 32% ers y flwyddyn flaenorol. Mae Saesneg hefyd yn dangos amrywiaeth, gyda 43% yn uwch ond 38% yn is. Mae'r data'n awgrymu bod angen ymyrraeth targedig yn y maes Cymraeg, yn ogystal â monitro agos ar Saesneg.

Mae Blwyddyn 4 yn dangos cynnydd cadarnhaol ar draws pob maes. Mae 79% o'r disgyblion yn perfformio'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y maes Cymraeg, gyda chynnydd o 4% ers 2024. Yn Saesneg, mae 84% yn uwch, cynnydd o 9%, ac yn Rhifedd, mae 75% yn uwch, cynnydd sylweddol o 15%. Mae Rhesymu hefyd yn dangos cynnydd o 14%, gyda 74% o'r disgyblion yn perfformio'n uwch. Mae'r data'n adlewyrchu effaith gadarnhaol strategaethau addysgu a chefnogaeth wedi'u targedu.

Yn Blwyddyn 5, mae perfformiad yn Rhifedd yn arbennig o gryf, gyda 81% o'r disgyblion yn perfformio'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, a chynnydd sylweddol o 41% ers 2024. Mae Saesneg hefyd yn dangos cynnydd o 15%, gyda 75% yn perfformio'n uwch. Fodd bynnag, mae Cymraeg yn dangos gostyngiad o 11%, gyda 69% yn uwch na'r cyfartaledd, sy'n awgrymu bod angen ymyrraeth benodol ar gyfer grŵp o ddysgwyr. Mae Rhesymu yn dangos cynnydd bach o 2%, gyda 62% yn perfformio'n uwch.

Mae safonau'r ysgol yn dangos tueddiadau cadarnhaol yn y mwyafrif o feysydd, yn enwedig yn Rhifedd a Rhesymu. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn perfformiad Cymraeg ym Mlwyddyn 3 a 5 yn peri pryder ac yn galw am ymyrraeth benodol. Dylid ystyried strategaethau dysgu wedi'u targedu, darparu cefnogaeth ychwanegol, a sicrhau monitro parhaus er mwyn cynnal a gwella safonau ar draws yr ysgol.

## 15. PRESENOLDEB

Mae'r ysgol wedi bod yn weithredol iawn yn 2024-2025 wrth geisio codi presenoldeb dysgwyr ar draws yr ysgol. Mae cyfathrebu yn gyson gyda rhieni/ gwarchodwyr am ganran presenoldeb eu plentyn yn ogystal a gwobrwyo presenoldeb yn wythnosol, hanner tymhorol a thymhorol wedi cael effaith cyffredinol ar bresenoldeb yr ysgol.

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2024–2025, gwelwyd cynnydd o 0.9% yn y ganran bresenoldeb blynyddol o'i gymharu â 2023–2024.

Mae presenoldeb YGG Bryniago 3.4% yn uwch na chyfartaledd presenoldeb ysgolion cynradd yn Ninas a Sir Abertawe (91.1%).
Mae'r ysgol bellach ymhlith y tair ysgol gynradd orau yn y sir o ran presenoldeb.

Mae YGG Bryniago wedi gwneud cynnydd cryf yn ei lefelau presenoldeb ers 2023–2024. Mae'r cynnydd o 0.9% yn dangos bod y strategaethau presennol yn effeithiol. Bydd yr ysgol yn parhau i fonitro, tracio a chefnogi dysgwyr er mwyn cynnal y safonau uchel hyn.

Blaenoriaethau ar gyfer 2025–2026:

- Gwerthuso presenoldeb holl ddysgwyr
- Ail-edrych ar strategaethau absenoldeb
- Hysbysu rhieni/gwarchodwyr am unrhyw newidiadau

Sylw ychwanegol: Mae nifer o ddysgwyr yn parhau i gyrraedd yr ysgol yn hwyr. Mae'r ysgol yn cysylltu'n gyson â rhieni'r dysgwyr hyn i fynd i'r afael â'r mater.

| | |
|---|---|
| 2024-2025 | 94.5% |
| 2023-2024 | 93.6% |
| 2022-2023 | 93.8% |

## 16. INCWM / RHODDION

| | |
|---|---|
| Cyngherddau Nadolig/ Christmas Concerts | £2194.50 |
| Siop ffrwyth/byr-brydiau | Elw o £1015.88 |
| Colorfoto | £0.00 |
| Llogi ysgol/School leasing | £3390.00 |
| Clwb brecwast/ Breakfast club | £4079.45 |
| Cyngerdd Gwyl Ddewi | £752.50 |

CRA:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 31/08/23 | Bank Balance | | 8764.75 |
| 20/09/23 | Uniformd | 4.88 | |
| 20/10/23 | Uniformd | 7.57 | |
| 27/10/23 | Buses Glanllyn | | 1400.00 |
| 01/11/23 | BANK BALANCE | | £7377.20 |
| | Ras y Pwmpen | 262.17 | |
| 06/11/23 | Rags 2 Riches | £60.25 | |
| 20/11/23 | Uniformd | £15.94 | |
| 22/11/23 | Raffle tickets ( s Thomas) | | £43.20 |
| 22/11/23 | Claire Young- Halloween sweets/xmas | | £103.70 |
| 22/11/23 | Ffion Jenkins-selection boxes | | £118.80 |
| 22/11/23 | Sharon Thomas-halloween/envelopes | | £50.94 |
| 11/12/23 | Hamperi Nadolig | 326.24 | |
| 15/12/23 | Alison Killa expenses | | 38.07 |
| 15/12/23 | Rhiannon Evans expenses | | £43.38 |
| 11/12/23 | Ffair Nadolig | £1635.35 | |
| 18/12/23 | Sha Thomas- EVC Licencing S'sea council | | £20.00 |
| 20/12/23 | Uniformd | £7.87 | |
| | BANK BALANCE | £9,310.31 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 02/01/24 | Parentkind DD- Liability ins | | 153.00 |
| 22/01/24 | Cauliflower cards | £200.50 | |
| | Bank Balance | | |
| | Six nations | £297.00 | |
| | Rags to riches | £50.25 | |
| 20/02/24 | Uniformd | £26.75 | |
| 15/03/24 | Chq S Thomas 131 easter eggs | | £170.10 |
| 20/03/24 | Uniformd | £6.74 | |
| 20/05/24 | Uniformd | £24.35 | |
| 31/05/24 | Balance | £9549.42 | |
| 07/07/24 | Smarties | £287.07 | |
| 16/07/24 | Smarties extra money | 31.40 | |
| 8/7/24 | Ffair haf | 1355.75 | |
| 16/07/24 | Chq-Bl6 leaving £10 ppx23 in class | | £230 |
| 17/07/24 | Chq YGG Bryniago Buses | | £150 |
| 17/07/24 | Chq- YGG Bryniago buses-sports day | | £375 |
| 17/07/24 | Chq-YGG Bryniago -Ffair haf expenses | | £62.31 |
| 18/07/24 | Ffair haf Hampers 327.22<br><br>Duck race 188.24 | £515.46 | |
| 19/07/24 | Chq-ffair haf teacher exp. A killa | | £48.93 |
| 19/07/24 | Chq- ffair haf teacher exp. R Evans | | £39.41 |
| 19/07/24 | Uniformd | 15.73 | |
| 23/7/24 | Chq- Bouncy castle-ffair haf rearranged bl6 | | 150.00 |
| 31/07/24 | Bank Balance | 10699.18 | |

## 17. ELUSENNAU

| | |
|---|---|
| Bore coffi MacMillan Coffee morning 2024 | £230.42 |
| Comic Relief 2025 | £157.70 |

| | |
|---|---|
| Plant Mewn Angen/ Children in Need<br>Tachwedd 2024 | £300.99 |
| Apel Eisteddfod yr Urdd 2025 (7/3/25) | £1250.00 |

## 18. DATGANIAD ARIANOL:

**SCHOOL: YGG Bryniago**

**STATEMENT OF ACTUAL EXPENDITURE 2024/25 FINANCIAL YEAR**

| | Delegated Expenditure £ | Non-Delegated Expenditure £ | Total Net Expenditure £ |
|---|---|---|---|
| Teachers Salaries | 641,380 | 0 | 641,380 |
| Salaries | 278,728 | 35,208 | 313,936 |
| Other Employee Costs | 2,210 | -215 | 1,995 |
| Premises | 7,378 | 0 | 7,378 |
| Transport | 105 | 120,127 | 120,232 |
| Supplies & Services | 208,777 | 0 | 208,777 |
| Recharges | 0 | 4,809 | 4,809 |
| | | | |
| ***Gross Expenditure*** | ***1,138,578*** | ***159,929*** | ***1,298,506*** |
| | | | |
| *Grant Income* | -180,943 | 0 | -180,943 |
| *Other Income* | -78,410 | -115 | -78,525 |
| | | | |
| ***Gross Income*** | ***-259,353*** | ***-115*** | ***-259,468*** |
| | | | |
| ***Net Expenditure*** | ***879,225*** | ***159,814*** | ***1,039,039*** |

| **RESERVES:** | **£** |
|---|---|
| FINAL FORMULA ALLOCATION: | 836,587 |
| TOTAL NET EXPENDITURE: | 879,225 |
| **TRANSFER TO / (FROM) RESERVES:** | **-42,638** |
| | |
| OPENING BALANCE ON RESERVES 01/04/24 | 154,172 |
| **CLOSING BALANCE ON RESERVES: 31/03/25** | **111,534** |

*Noder, os gwelwch yn dda, y derbyniodd yr ysgol gyllid am Ganolfan Iago (2024-2024) ar ddiwedd 2023-2024 a dyna'r rheswm dros yr arian wrth gefn.

## 19. NEWIDIADAU I BROSBECTWS YR YSGOL

Mae llawlyfr yr ysgol wedi ei addasu i gynnwys newidiadau diweddar. Gosodir copi cyfredol o'r prosbectws ar ein gwefan, gofynnir i chi gyfeirio ato o bryd i'w gilydd er mwyn cadarnhau eich ymwybyddiaeth o drefn yr Ysgol.

## 20. CHWARAEON

Mae chwaraeon yn elfen allweddol o fywyd cymunedol YGG Bryniago. Mae pob disgybl yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol o leiaf unwaith yr wythnos, gan sicrhau bod datblygiad corfforol yn rhan annatod o'u profiad ysgol.

Rhoddir pwyslais clir ar ddatblygu sgiliau chwaraeon ymhlith holl ddisgyblion yr ysgol. Mae cyfleoedd rheolaidd i ddilyn gwersi nofio ym mhwll Penyrheol ar gael i bob blwyddyn ym Mryniago Mawr, gyda disgyblion Blwyddyn 3 i 6 wedi mynychu gwersi nofio yn ystod 2024–2025.

Mae gan yr ysgol nifer o dimau chwaraeon gweithgar sy'n cynrychioli'r ysgol mewn cystadlaethau ac yn meithrin sgiliau tîm, ymroddiad a chwarae teg:

- **Rygbi** – Bechgyn a merched
- **Pêl-droed** – Bechgyn, merched a thimau cymysg
- **Criced** – Bechgyn, merched a thimau cymysg
- **Pêl-rwyd** – Merched
- **Athletau** – Bechgyn, merched a thimau cymysg

Mae'r ysgol yn parhau i feithrin diwylliant lle mae chwaraeon yn cyfrannu'n gadarnhaol at iechyd, lles a datblygiad cymdeithasol disgyblion.

## 21. BWYTA'N IACH

Mae Ysgol Bryniago yn parhau i ddilyn polisïau clir i hybu ffordd o fyw iach ymhlith ei disgyblion. Datblygir ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd iechyd corfforol a meddyliol drwy wersi dosbarth sy'n seiliedig ar themâu penodol.

Mae'r ysgol yn dilyn canllawiau **'**Blas am Oes'**,** sef agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella safonau bwyd a diod a ddarperir yn ystod y diwrnod ysgol. Mae'r canllawiau hyn yn llywio arferion ymarferol o ran maeth ac iechyd.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn y broses o ennill y chweched ddeilen yn rhaglen **'**Ysgolion Iach'**,** gan adlewyrchu ymrwymiad parhaus i hyrwyddo iechyd a lles.

Mae'r ysgol yn annog disgyblion i fwyta'n iach drwy ddarparu byrbrydau iach megis ffrwythau a llysiau yn ystod oriau ysgol. Gofynnir i bob disgybl ddod â potel ddŵr bob dydd, gyda'r cyfle i'w hail-lenwi yn ystod y diwrnod ysgol.

## 22. CYMREICTOD YN YSGOL BRYNIAGO

Rhoddir stôr o brofiadau sy'n hybu diwylliant, etifeddiaeth a chariad at ein gwlad a'n hiaith i ddisgyblion Bryniago drwy; wersi ar lawr y dosbarth, wahodd ymwelwyr arbennigol; drefnu ymweliadau addysgiadol sy'n cyfoethogi'r dimensiwn Cymreig; drefnu ymweliadau â gwahanol rannau o Gymru.

Yn 2024-2025 dathlodd yr ysgol:

- Diwrnod Owain Glyndwr
- Diwrnod T.Llew Jones (Barti Ddu/ Yr Hydref)
- Diwrnod Shw'mae
- Diwrnod Santes Dwynwen
- Dydd Miwsig Cymru
- Dydd Gŵyl Dewi
- Diwrnod y Llyfr

Mae'r ysgol yn rhoi lle amlwg i dargedau Siarter Iaith, Tafod Tawe.

## 23. Y CWRICWLWM YN YSGOL BRYNIAGO

### Gweledigaeth Cwricwlwm YGG Bryniago

Ein nod yn Ysgol Gymraeg Bryniago yw cynnig cwricwlwm deinamig, perthnasol, pwrpasol ac ysgogol sy'n tanio'r angerdd am ddysgu yn ein dysgwyr. Bydd ein cwricwlwm yn cynnig profiadau eang, gwerthfawr a chofiadwy i'n dysgwyr. Bydd yn eu grymuso i adeiladu ar eu sgiliau a'u gwybodaeth blaenorol. Byddant yn cael eu herio i brofi llwyddiant. Bydd bob

plentyn yn cael mynediad cyflawn at y profiadau, y wybodaeth a'r sgiliau y mae eu hangen arnyn nhw ym myd gwaith, ar gyfer dysgu gydol oes ac er mwyn bod yn ddinasyddion gweithredol. Yn ganolog i'n cwricwlwm cynhwysol mae ein hymrwymiad i ddatblygu meddylfryd a pherthnasoedd cadarnhaol fel bod ein dysgwyr yn ffynnu. O dan ein gofal a'n harweiniad bydd ein cwricwlwm yn datbygu ein dysgwyr i fod yn ddinasyddion annibynnol a chydweithredol a fydd yn barod i gerdded ymlaen yn hyderus yn eu cymuned leol, Cymru a'r byd ehangach. Ysgogwn ein plant i deimlo balchder am eu gwlad a'u hiaith ac i drysori eu hetifeddiaeth a'u diwylliant.


"Allwedd diwylliant yw iaith".

Agorwn ddrysau'r dyfodol i blant ysgol Bryniago.

**Iaith addysgu'r ysgol:**

Mae Ysgol Bryniago yn ysgol benodedig Gymraeg. Addysgir pob pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 7 oed. Cyflwynir Saesneg yn ffurfiol ym Mlwyddyn 3. Fodd bynnag, mae sicrhau ein bod yn datblygu ein dysgwyr i fod yn ddysgwyr amlieithog o oed ifanc yn allweddol bwysig i ni yn Ysgol Bryniago.

Mae cwricwlwm Ysgol Bryniago yn cael ei lywio gan y pedwar diben. Mae'r pedwar diben yn ymgorffori gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru, ac yn cynrychioli dyheadau'r ysgol yn ogystal a'n huchelgeisiau ar gyfer pob dysgwr, gan eu galluogi i ddod yn:




Bydd holl brofiadau dysgu YGG Bryniago yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr symud ymlaen tuag at y pedwar diben hyn. Y rhain yw'r man dechrau, yn ogystal â'r gyrchfan, a rhaid iddynt fod yn sail i bob penderfyniad

**Ein Cwricwlwm Cynhwysol:**

Mae'r cwricwlwm a gynigir yn yr ysgol hon wedi ei drefnu er mwyn rhoi mynediad i bob disgybl sydd yn mynychu'r ysgol. Fel ysgol rydym wedi ystyried sut y bydd pob dysgwr yn

cael ei gefnogi i wireddu'r pedwar diben ac i symud ymlaen.


**Cwricwlwm i Gymru:**

Mae Cwricwlwm i Gymru yn rhoi'r rhyddid i ni fel ysgol i ddylunio ein cynnwys ein hunain yn seiliedig ar:

- 6 Maes Dysgu a Phrofiad a'u Datganiadau Beth sy'n Bwysig
- Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd
- 5 Thema Drawsbynciol

**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig**

Bydd ein cwricwlwm yn darparu cyfleoedd a phrofiadau i ddatblygu'r cysyniadau, gwybodaeth a sgiliau allweddol fel y disgrifir hwy yn ['Y Cod Datganiadau o'r Hyn Sy'n Bwysig'.]



**Sgiliau Trawsgwricwlaidd:**

**Bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd i:**

⇒ ddatblygu sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu

⇒ ddefnyddio rhifau a datrys problemau mewn sefyllfaoedd go iawn

⇒ ddatblygu eu hyder wrth ddefnyddio ystod o dechnolegau i'w helpu i weithredu a chyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd

**Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

Mae helpu ein dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch, yn greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb yr ysgol. Mae datblygu'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi ein dysgwyr. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a *thegwch* yn grymuso ein dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau sy'n gwbl gynhwysol, gan adlewyrchu amrywiaeth a hyrwyddo parch. Mae gan addysg cydberthynas a rhywioldeb rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg ein dysgwyr ac mae'n hanfodol rhoi ffocws iddynt er mwyn galluogi ein dysgwyr i gyflawni'r pedwar diben.

**Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**

Mae crefydd, gwerthoedd a moeseg yn ofyniad statudol o'r Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i **bob** dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae'n bwnc a benir yn lleol ac felly rydyn ni fel Ysgol yn dilyn maes llafur Awdurdod Addysg Dinas a Sir Abertawe sydd yn cydymffurfio â canllawiau'r cod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

**CCUHP:** Mae ein hysgol yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP- Hawliau Plant, drwy gwricwlwm yr ysgol.

**Addysg, gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith:**

Mae dysgu am addysg a phrofiadau byd gwaith yn hollbwysig i ni yn Ysgol Bryniago. Mae dysgu am hyn yn meithrin sgiliau ar gyfer bywyd a gwaith. Mae hyn yn helpu ein dysgwyr i ddeall y gydberthynas rhwng eu dysgu a byd gwaith.

**Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol:** Mae rhoi ffocws o fewn cwricwlwm yr ysgol i gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn helpu ein dysgwyr i wneud synnwyr o'u perthynas â'u cymuned, eu hunaniaeth genedlaethol a'r byd ehangach. Drwy gynllunio cwricwlwm gyda ffocws lleol, cenedlaethol a rhyngwladol rydyn ni'n sicrhau ein bod yn cefnogi ein dysgwyr i ddod yn ddinasyddion amlochrog, gan fyfyrio ar eu rolau a'u cyfrifoldebau ym mhob cyd-destun a chydnabod amrywiaeth pob un ohonyn nhw.

**Amrywiaeth:**

Yn Ysgol Bryniago rydyn ni'n adnabod a dathlu natur amrywiol grwpiau cymdeithasol a chymunedau a sicrhau bod y cwricwlwm yn adlewyrchu'r amrywiaeth honno a'i fod yn gallu ymateb i brofiadau'r grwpiau o fewn ein cymuned. Wrth i'n dysgwyr wneud cynnydd, dylen nhw ddod yn gynyddol ymwybodol o'r ystod o nodweddion penodol a all ddiffinio ein hunaniaeth, gan gynnwys rhyw, rhywedd, hil, crefydd, oedran, anabledd a rhywioldeb.

## 24. GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL

Mae Ysgol Bryniago yn parhau i gynnig ac ehangu amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol ar gyfer pob disgybl, gan gyfrannu'n gadarnhaol at eu datblygiad personol, cymdeithasol a chreadigol.

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- **Chwaraeon** – gan gynnwys timau cystadleuol mewn rygbi, pêl-droed, criced, pêl-rwyd ac athletau.
- **Celf** – cyfleoedd i fynegi creadigrwydd drwy amrywiaeth o brosiectau artistig.
- **Coginio** – datblygu sgiliau ymarferol a dealltwriaeth o fwyd iach.
- **Canu** – meithrin hyder, rhythm a pherfformio.
- **Codio** – cyflwyno disgyblion i sgiliau digidol a meddwl cyfrifiadurol.

Mae'r gweithgareddau hyn yn cefnogi ethos yr ysgol o feithrin disgyblion hyderus, gweithgar ac amryddawn.

## 25. ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae Ysgol Bryniago yn ymrwymedig i sicrhau bod disgyblion ag anghenion ychwanegol yn derbyn cefnogaeth briodol ac effeithiol. Darperir cymorth drwy amrywiaeth o ddulliau, yn dibynnu ar anghenion unigol pob disgybl – boed hynny o fewn y dosbarth, yn unigol neu mewn grwpiau bach. Mae cynorthwywyr dosbarth yn chwarae rôl allweddol wrth ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol.

Cynhelir cyfarfodydd adolygu rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, gyda rhieni'n chwarae rhan ganolog yn y broses. Mae rhyngweithio ag asiantaethau allanol hefyd yn hanfodol wrth asesu ac ehangu darpariaeth yr ysgol.

Ar gyfer disgyblion sydd â Datganiad Anghenion Arbennig**,** cynhelir adolygiad blynyddol gyda chynrychiolydd o'r Awdurdod Addysg yn bresennol.

Mae'r ysgol yn cynnig cefnogaeth emosiynol i'r dysgwyr hynny sydd angen cymorth arbenigol, gan gynnwys cydweithio ag asiantaethau megis **Platform**, a chyflwyno rhaglenni fel Cwmwl Clyd yn ogystal â strategaethau ysgol penodol.

Mae'r llywodraethwraig â chyfrifoldeb dros Anghenion Arbennig yn cyfarfod yn rheolaidd â staff yr ysgol, yn enwedig gydag arweinydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i fod yn effeithiol ac yn ymatebol i anghenion y disgyblion.

## 26. DEDDF CYDRADDOLDEB

*Beth a olygir gan y ddeddf?*

Mae'r ddeddf yn diffinio anabledd fel nam corfforol neu feddyliol, sy'n cael effaith andwyol a hirdymor ar allu unigolyn i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Mae pobl sydd ag anabledd, a'r rhai sydd wedi bod ag anabledd, ond nad oes ganddyn nhw bellach, yn dod o dan y ddeddf.

*Trefniadaeth Derbyn*

Mae'n ddyletswydd arnom ni, ynghyd â'r Awdurdod Addysg Lleol, i ddrbyn plant o'r fat hi ysgol brif ffrwd, yn amodol ar ddymuniadau eu rhieni ac os yw'r lleoliad:

- Yn briodol i anghenion y plentyn
- Nid yw'n gwrthdaro â buddiannau plant eraill yn yr ysgol
- Yn ddefnydd effeithlon o adnoddau'r Awdurdod Addysg Lleol

Bydd yr ysgol bob amser yn ceisio sicrhau bod disgyblion ag anableddau yn cael eu hatal rhag cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill trwy:

- Wrando a gofalu, er mwyn helpu i greu awyrgylch gynhwysol o gyfle cyfartal i'r holl ddisgyblion.
- Godi ymwybyddiaeth yr ysgol i rai o'r anawsterau mae'r plant anabl yn eu hwynebu.
- Sicrhau ein bod i gyd yn defnyddio dulliau rhesymol i ddarparu unrhyw offer a/neu arbenigedd arbenigol sy'n ofynnol i wella eu safonau addysga lles i blant anabl.
- Cwblhau'r cynllun hygyrchedd yn flynyddol a'i adolygu er mwyn gweld lle y gellir gwella/ wneud newidiadau.

Cyfleusterau i gynorthwyo gyda mynediad i'r ysgol:

- Mae'r ysgol ar un lefel
- Mae prif-fynedfeydd yr ysgol yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn.
- Mae'r coridorau yn ddigon llydan er mwyn darparu mynediad i gadeiriau olwyn
- Mae'r ysgol yn barod i drafod angehnion unrhyw ddisgybl ac addasu lle bo angen.
- Defnyddir cymorthion gweledol lle bo angen.
- Mae gan yr ysgol doiledau adas ar gyfer yr anabl.

## Gwerthusiad o dargedau Cydraddoldeb YGG Bryniago, 2024-2025:

### Dysgwyr PYDd:

Mae disgyblion bregus yn cyrraedd safonau da o fewn eu darllen Cymraeg a Saesneg. Er hyn, mae angen codi safonau dysgwyr PYDd o fewn eu medrau rhifedd gweithdrefnol a rhesymegol.

Mae llawer o'r dysgwyr PYDd â sgor safonedig disgwyliedig neu uwch o fewn darllen Cymraeg (5/6). Mae llawer yn gwneud cynnydd da yn eu darllen Cymraeg neu mae'r safonau yn aros yn gyson dda.

Mae bron a bod pob un o ddysgwyr PYDd â sgor safonedig disgwyliedig neu uwch o fewn darllen Saesneg (6/6). Mae llawer yn gwneud cynnydd da yn eu darllen Saeseng neu mae'r safonau yn aros yn gyson dda.

Mae'r mwyafrif (4/6) o'r dysgwyr PYDd â sgor safonedig disgwyliedig neu uwch o fewn rhifedd gweithdrefnol. Mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd da yn eu medrau rhifedd gweithdrefnol neu mae'r safonau yn aros yn gyson.

Mae'r mwyafrif (4/6) o'r dysgwyr PYDd â sgor safonedig disgwyliedig neu uwch o fewn rhifedd rhesymegol. Ychydig sy'n gwneud cynnydd o few neu medrau rhifedd rhesymegol.

### Presenoldeb grwpiau o ddysgwyr:

Mae presenoldeb dysgwyr PYDd yn gyffredinol is na phresenoldeb dysgwyr sydd ddim yn gymwys am PYDd. Nifer fach o ddisgyblion PYDd sydd yn yr ysgol. Fodd bynnag, gwelir patrwm ar draws yr ysgol o absenoldeb oherwydd salwch a gwyliau gan y dysgwyr PYDd:

| 2024-2025<br>**Period: 02/09/2024 AM to 18/07/2025 PM** | **Nifer o blant PYDd** | **PYDd** | **Dim PYDd** |
|---|---|---|---|
| **Derbyn** | 3 | 83.24 | 93.95% |
| **Blwyddyn 1** | 7 | 90.70% | 93.54% |
| **Blwyddyn 2** | 1 | 86.51% | 93.91% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Blwyddyn 3** | 2 | 92.29% | 96.26% |
| **Blwyddyn 4** | 3 | 86.64% | 96.20% |
| **Blwyddyn 5** | 2 | 84.10% | 94.97% |
| **Blwyddyn 6** | 0 | | 95.69% |

Mae presenoldeb dysgwyr sy'n gymwys i BYDd gorau I weld ym mlynyddoedd 1 a 3. Mae'r presenoldeb isaf gan y dysgwyr PYDd ym mlynyddoedd Derbyn, 2, 4 a 5.

**Dysgwyr ADY:**

Mae presenoldeb dysgwyr sydd heb ADY yn well na phresenoldeb dysgwyr sydd ag ADY ar draws yr Ysgol, onibai am flynyddoedd 5 a 6.

| 2024-2025<br>**Period:** **02/09/2024 AM to 18/07/2025 PM** | **Nifer o blant ADY (CDU)** | **PYDd** | **Dim PYDd** |
|---|---|---|---|
| **Derbyn** | 1 | 91.8% | 92.9% |
| **Blwyddyn 1** | 5 | 87.5% | 92.9% |
| **Blwyddyn 2** | 3 | 80.3% | 93.6% |
| **Blwyddyn 3** | 0 | | 95.9% |
| **Blwyddyn 4** | 1 | 82.3% | 95% |
| **Blwyddyn 5** | 1 | 96.8% | 93.8% |
| **Blwyddyn 6** | 1 | 96.8% | 95.7% |

**Clybiau brecwast/ gofalu a chlybiau allgyrsiol grwpiau o ddysgwyr:**

Mae'r ysgol yn cynnig i blant sy'n gymwys i PYDd i fynychu'r clwb gofalu yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, prin iawn yw'r dysgwyr PYDd sy'n mynychu'r clwb gofalu a'r clwb brecwast. Prin iawn yw'r dysgwyr sy'n gymwys i PYDd sy'n mynychu'r clybiau cwricwlwm allgyrsiol hefyd. Mae ychydig iawn o ddysgwyr ADY yn mynychu'r clwb gofalu/ brecwast yn achlysurol.

**Byr-bryd ysgol:**

Mae bron bob un disgybl sy'n gymwys am PYDd yn cael cynnig un byr-bryd yn rhad ac am ddim yn yr ysgol yn ddyddiol.

**Ymweliadau addysgiadol:**

Mae bron a bod pob disgybl sy'n gymwys am PYDd yn mynychu ymweliadau addysgiadol. Mae'r ysgol yn cynorthwyo'r dysgwyr yma yn ariannol e.e. talu cost teithio i ymweliad a/neu thalu 25%/50% o gost ymweliad preswyl. Mae y rhan fwyaf o ddysgwyr ADY yn mynychu ymweliadau addysgiadol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu yn agos gyda rhieni'r dysgwyr ADY o flaen llaw i weld beth yw bwriad y rhiant/ gwarchodwyr os yw anghenion y dysgwr yn ddwys. Bydd yr ysgol yn cynllunio o gwmpas dymuniad y rhiant/ gwarchodwr e.e. sicrhau bod y disgybl yn mynychu'r ysgol ar y diwrnod neu yn rhoi camau penodol mewn lle i gefnogi anghenion y disgybl.

**Amgylchedd yr ysgol:**

Mae'r ysgol wedi cydweithio gyda'r AALl i addasu dwy ystafell ddosbarth ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu dwys o fewn clwstwr Gwyr. Agorodd Canolfan Iago ym Medi 2025. Mae'r AALl yn y broses o gwblhau toiled anabl/ystafell newid ar gyfer dysgwyr y ganolfan a Bryniago Mawr.

Mae safle Bryniago Mawr yn addas ar gyfer dysgwyr sydd ag anableddau. Mae prif fynedfa Bryniago Mawr yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn. Mae pob dosbarth yn addas ar gyfer disgyblion ac ymwelwyr anabl. Fodd bynnag, does dim mynediad I'r buarth chwarae yn uniongyrchol o ystafelloedd Canolfan Iago. Er hyn, mae modd cael mynediad trwy fynd allan trwy'r drysau tan ger toiledau'r bechgyn ac I lawr y llwybr tuag at y buarth chwarae. Mae toiled anabl o fewn adeilad Bryniago Bach ac ystafell newid disgyblion. Mae'r buarth yn addas i ddisgyblion ac ymwelwyr anabl.

Mae safle Bryniago Mawr yn rhanol addas ar gyfer dysgwyr ac ymwelwyr sydd ag anableddau. Mae prif-fynedfa Bryniago Mawr yn addas i gadeiriau olwyn. Mae grisiau yn arwain o un ystafell yng Nghanolfan Iago ac o gefn y Neuadd. Er hyn, mae modd cyrraedd/ gadael y lleliadau hyn o allanfa sy'n gyfeillgar i gadeiriau olwyn. Mae toiled anabl ar safle Bryniago Mawr. Mae ystafell addas ar gyfer newid plant hefyd. Mae cynlluniau ar y gweill er mwyn gwella'r cyfleustra ystafell newid o fewn y ganolfan i gynnwys toiled hygyrch.

**Adnoddau:**

Mae gan yr ysgol adnoddau sy'n caniatau i'r rhan fwyaf o ddysgwyr i gael mynediad i gwricwlwm yr ysgol. Mae'r ysgol yn monitro yr adnoddau yn gyson a lle bo' angen fe archebir adnoddau penodol. Mae'r ysgol yn cydweithio gydag asianataethau allanol er mwyn archebu adnoddau perthnasol.

**Cwricwlwm yr ysgol**

Mae cwricwlwm yr ysgol yn adlewyrchu amrywiaeth yr ysgol, y gymuned a'r gymuned ehangach. Mae cynllun Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhoi cyfle i'r dysgwyr i ddysgu am wahanol gredoau. Mae'r cynllun ACRh yn rhoi cyfle i'r dysgwyr i ddysgu am drawdoriad o boblI a gwahanol grwpiau o bobl o fewn y gymdeithas. Mae'r gwasanaethau boreol hefyd yn dathlu amrywiaeth yn y byd ac yn annog parch tuag at bawb.

**Llais y plentyn:**

Mae gan yr ysgol gyngor ysgol ac eco brwdfrydig iawn. Mae'r ysgol yn sicrhau bod gan bob disgybl rol i chwarae o fewn yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod pob plentyn, boed beth bynnag ei oed, gallu a hil yn cael llais o fewn yr ysgol. Mae pob plentyn ym Mryniago Bach yn cael cyfle i fod yn helpwr y dydd. Mae bron a bod pob disgybl ym Mryniago Mawr sydd ddim ar y cyngor ysgol/ eco yn rhan o'r Criw Cymreictod, criw buarth, Criw digidol neu Criw ffreutur. Mae'r ysgol yn cynnal cyfres o holiaduron ar draws y flwyddyn ysgol i glywed barn y dysgwyr am wahanol agweddau. Mae'r holiaduron yn gyfuniad o rai unigol a rhai dosbarth.

**Nosweithiau rhieni:**

Ar y cyfan, mae presenoldeb rhieni/ gofalwyr i nosweithiau rhieni yn dda. Prin yw'r rhieni sydd yn mynychu'r nosweithiau taro i mewn. Fodd bynnag, mae y rhan fwyaf o rieni a gofalwyr yn mynychu'r noweithiau rhieni mwy ffurfiol. Mae hyn yn cynnwys rhieni dysgwyr o gartrefi difreintiedig, rhieni dysgwyr ADY. Rhoddir cyfle i rieni sydd wedi gwahanu a sydd angen apwyntiadau arwahan i ddod i drafod cynnydd eu plentyn ar nosweithiau gwahanol. Mae'r ysgol hefyd yn sicrhau bod copiau adroddiadau diwedd blwyddyn yn cael eu rhannu yn unol a dymuniadau'r rhieni/ gofalwyr.

**Ymddygiad a gwrth-fwlio:**

Ar y cyfan, mae ymddygiad dysgwyr yn dda. Mae pob grwp o ddysgwyr yn cael eu trin yn deg. Mewn achosion o fwlio, bydd yr ysgol yn ymchwilio yn llawn ac yn cefnogi pob dysgwr mewn sefyllfa o'r fath. Mae gan yr ysgol gamau clir i'w dilyn i reoli ymddygiad a bwlio. Mewn achosion lle mae ymddygiad dysgwyr unigol yn peri consyrn, mae'r ysgol yn cynnal cyfarfodydd cyson gyda rhieni er mwyn gwella'r ymddygiad. Gwneir defnydd o strategaethau yn ogystal a rhaglenni megis PSP er mwyn osgoi gwahardd y dysgwyr o'r ysgol.

**Adrodd:**

Mae'r ysgol yn adrodd am unrhyw un o'r uchod o fewn adroddiad y pennaeth i'r corff llywodraethu yn dymhorol.

## 27. CYFATHREBU GYDA RHIENI/ GOFALWYR

Mae cyfathrebu effeithiol â rhanddeiliaid yn ganolog i lwyddiant Ysgol Bryniago. Mae llinellau cyfathrebu clir rhwng y cartref a'r ysgol yn sicrhau bod rhieni, gofalwyr a'r gymuned ehangach yn cael eu cynnwys yn llawn ym mywyd yr ysgol.

Yn ystod y flwyddyn ysgol 2024–2025, cynhaliwyd:

- Noson taro i mewn – Tymor yr Hydref 2024
- Noson rieni/gwarchodwyr ffurfiol – Tymor y Gwanwyn 2025
- Noson taro i mewn – Tymor yr Haf 2025

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n rheolaidd drwy:

- Gwefan yr ysgol – yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am bob agwedd o fywyd ysgol
- Safle 'X' a Class Dojo – yn rhannu trawstoriad eang o weithgareddau disgyblion ac yn meithrin cysylltiad uniongyrchol â rhieni

Yn ogystal, mae:

- Cylchlythyron wythnosol, llawlyfrau, cyfarfodydd, a diwrnodau agored yn darparu gwybodaeth bellach i rieni
- Gweithgareddau'r CRA, gwasanaethau dosbarth, a chyngherddau yn cynnig cyfleoedd i rieni weld gwaith a datblygiad eu plant o fewn y dosbarth a'r ysgol

Mae'r dull cyfathrebu hwn yn sicrhau tryloywder, ymddiriedaeth, a chysylltiad agos rhwng yr ysgol a'r gymuned.

## 28. CYSYLLTIADAU GYDA'R GYMUNED

Yn ystod y flwyddyn, mae Ysgol Bryniago wedi parhau i feithrin a datblygu cysylltiadau agos â'r gymuned leol, gan sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd cyfoethog i ddysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Mae bron pob dosbarth (5+ oed) wedi cymryd rhan mewn o leiaf un ymweliad addysgiadol, gan gynnwys ymweliadau i leoliadau diwylliannol, hanesyddol, gwyddonol a chymunedol. Mae'r profiadau hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol ac academaidd y disgyblion.

Mae'r ysgol wedi cynnal cysylltiad cryf â swyddog heddlu ysgolion, gan hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiogelwch, cyfrifoldeb cymdeithasol a pharch tuag at eraill. Mae'r cydweithio hwn wedi cynnwys sesiynau addysgiadol, trafodaethau grŵp a chyfraniad at ddigwyddiadau ysgol.

Yn ogystal, mae YGG Bryniago wedi dangos ymrwymiad cryf i gefnogi elusennau, gan annog disgyblion i gyfrannu'n weithgar at achosion lleol a chenedlaethol. Ymhlith yr elusennau a gefnogwyd eleni mae:

- Banc Bwyd Pontarddulais – drwy gasglu bwyd a chodi ymwybyddiaeth o anghenion cymunedol.
- Plant Mewn Angen – gyda gweithgareddau codi arian a digwyddiadau ysgol.
- Comic Relief – drwy ddigwyddiadau hwyliog a chreadigol i godi arian ac ymwybyddiaeth.

Mae'r gweithgareddau hyn yn adlewyrchu gwerthoedd craidd yr ysgol o garedigrwydd, cyfrifoldeb cymdeithasol a pharch tuag at eraill, gan feithrin disgyblion fel dinasyddion gweithgar a chydwybodol.

## 29. IECHYD A DIOGELWCH A GWERSI YCHWANEGOL

Mae Ysgol Bryniago yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a lles disgyblion, staff ac ymwelwyr. Caiff presenoldeb ei fonitro'n fanwl drwy System Rheoli Ymwelwyr, sy'n cofnodi presenoldeb disgyblion, staff ac ymwelwyr drwy gydol y diwrnod ysgol.

Mae'r ysgol wedi nodi pedwar ardal chwarae benodol, gyda staff yn goruchwylio'r ardaloedd hyn yn ddyddiol. Mae dyletswydd iard yn dechrau am 8:40am, ac mae'r drysau allanol yn cau am 8:50am. Ar ôl yr amser hwn, rhaid i unrhyw un sy'n cyrraedd gofrestru drwy'r dderbynfa.

Mae staff yn dilyn patrwm dyletswydd cyson drwy'r dydd, gan gynnwys goruchwylio'r neuaddau ac ardaloedd chwarae yn ystod amseroedd egwyl. Mae pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf sylfaenol, gyda aelod dynodedig cymwys yn gyfrifol am reoli unrhyw sefyllfaoedd meddygol yn ystod amser egwyl.

Pan fydd disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol neu allgyrsiol oddi ar y safle, mae'r Pennaeth neu aelod o'r tîm rheoli uwch ar ddyletswydd fel pwynt cyswllt cyson ar gyfer staff a rhieni, gan sicrhau cyfathrebu effeithiol a diogelwch parhaus.

Mae'r ysgol yn parhau i fuddsoddi yn yr amgylchedd dysgu mewnol ac allanol, gan gydweithio'n agos gyda'r llywodraethwyr a'r Awdurdod Addysg Lleol i sicrhau bod gofynion diogelwch, hygyrchedd a lles yn cael sylw priodol.

## 30. CYFLEUSTERAU TOILED

Mae gan y Meithrin doiledau eu hunain o fewn eu dosbarth. Mae gan ddysgwyr y Derbyn- Blwyddyn 2 doiledau defnydd cymysg. Mae tai bach un rhyw ar gyfer disgyblion blynyddoedd 3-6. Mae'r rhain yn cael eu glanhau bob dydd nos dan gytundeb gyda'r Awdurdod lleol.

## 31. E DDIOGELWCH

Yn ogystal â gweithdrefnau a negeseuon cyson i staff a disgyblion ynglŷn ag arferion e-ddiogelwch, fe fydd llythyrau wythnosol yn cynnwys nodiadau cyson i rieni.

Fe fydd disgyblion yn derbyn gwersi ffurfiol ar ddiogelwch ar lein fel rhan o gynllun gwaith TGCh. Darperir canllawiau clir a chyngor i staff drwy gyfrwng Llawlyfr y Staff

## 32. CRA

Mae Ffrindiau Ysgol Bryniago yn cymryd rhan llawn o fewn yr ysgol Maent yn cefnogi'r ysgol ac rydyn ni'n gwerthfawrogi eu cyfraniad yn fawr. Cynhaliwyd gweithgareddau rhithiol ac ar lawr y dosbarthiadau eleni. Bu'r CRA hefyd yn weithgar yn hyrwyddo'r ysgol o fewn y gymuned leol.

| | **2024-2025** |
|---|---|
| **Chair/Cadairyddes** | Claire Young |
| **Secretary/Ysgrifenyddes** | Mia Evans |
| **Treasurer/Trysoryddes** | Ffion Jenkins |
| **Social Media** | Claire Y/Mia Evans |
| **Class Rep Meithrin** | Rebecca Thomas |

| | |
|---|---|
| **Class Rep Derbyn** | Tomos/Claire Young/Celene |
| **Class Rep Blwyddyn 1** | Emma Jones |
| **Class Rep Blwyddyn 2** | Claire Young/Ffion Jenkins/Rhiannon/Tomos |
| **Class Rep Blwyddyn 3** | Tomos Jones/Mia Evans |
| **Class Rep Blwyddyn 4** | Aimee Dew/Sharon Thomas |
| **Class Rep Blwyddyn 5** | Catherine(Ifan) |
| **Class Rep Blwyddyn 6** | Claire Q/Ann/Carina Edenborough/ Nicole Morgans/Natalie |

## 33. GWEITHGAREDDAU'R FLWYDDYN

| **Medi/ September** | | |
|---|---|---|
| **18.09.24**<br><br>**09:30-10:30** | Gweithdy CAMHS: rheoleiddio emosiynnol/ emotional regulation workshop | Blwyddyn 4 a 5 |
| **30.09.24**<br><br>**09:30-10:30** | Gweithdy CAMHS: rheoleiddio emosiynnol/ emotional regulation workshop | Blwyddyn 3 a 4 |
| **27.09.24** | Cystadleuaeth Masnach Deg/ Fair Trade competition | Blwyddyn 3-6 |
| **27.09.24** | Bore coffi MacMillan Coffee Morning | Ysgol gyfan/ Whole school |

| | | |
|---|---|---|
| 27.09.24 | Prynhawn coffi MacMillan I rieni/ MacMillan Coffee Afternoon (14:00) for parents | Ysgol gyfan/ Whole school |

| Hydref/ October | | |
|---|---|---|
| | Mis Pobl Dduon/ Black History Month | |
| 07.10.24<br><br>09:30-10:30 | Gweithdy CAMHS: rheoleiddio emosiynnol/ emotional regulation workshop | Blwyddyn 2 |
| 06.10.24 | Cymanfa Hope-Siloh | |
| I'w gadarnhau/ To be confirmed | Noson agored i flwyddyn 6 yn YG Gŵyr/ Open evening for year 6 in YG Gŵyr. | Blwyddyn 6 |
| 11.10.24 | Dydd T.Llew Jones Day-<br><br>Bryniago Bach: Gwisgo fel mor-ladron/ dress up as pirates<br><br>Bryniago Mawr: Gwisgo yn lliwiau'r hydref/ wear autumn colours | Ysgol gyfan/ Whole school<br><br>Does dim angen prynu gwisg mor-leidr- defnyddiwch eich dychymyg! *Please refrain from buying a costume– use your imagination!* |
| 14.10.24<br><br>09:30-10:30 | Gweithdy CAMHS: rheoleiddio emosiynnol/ emotional regulation workshop | Blwyddyn 1 |
| 15.10.24 | Diwrnod Shwmae | Ysgol gyfan/ Whole school |
| 18.10.24 | Diwrnod gwisgo coch 2024 Dangos y Cerdyn Coch I hiliaeth/ Show racism the Red Card– wear red day 2024 | Ysgol gyfan/ Whole school |
| 10.10.24 | Cystadleuaeth pêl-droed yr Urdd/ The Urdd's football competition. | Tîm pêl-droed cymysg/ Mixed Football team Bl.5 a 6 |
| 11.10.24 | Cystadleuaeth pêl-droed yr Urdd/ The Urdd's football competition. | Tîm pêl-droed cymysg/ Mixed Football team Bl.3 a 4 |
| 11.10.24 | Cystadleuaeth pêl-droed yr Urdd/ The Urdd's football competition- merched/ girls | Tîm pêl-droed/ Football team |
| 23.10.24 | Gwers wyddoniaeth YG Gwyr Science lesson | Blwyddyn 6 |
| 24.10.24 | 2:30 Gwasanaeth Diolchgarwch Bl.4 / Year 4 *Thanksgiving service. CROESO CYNNES I BAWB/ A WARM WELCOME TO EVERYONE.* | Blwyddyn 4<br><br>Ysgol gyfan/ whole school- |

| Tachwedd/ November | | |
|---|---|---|
| | Perfformiad Theatr Na'Nog *Performance* | Blwyddyn 5 a 6 |
| 07.11.24 | Perfformiad sioe YG Gwyr, 'Yn ol i'r '80au' | Blwyddyn 6 |

| | | |
|---|---|---|
| **11.11.24-15.11.24** | Wythnos Gwrth-fwlio/ Anti-bullying week | |
| **15.11.24** | Diwrnod Plant Mewn Angen/ Children in Need Day | Ysgol gyfan/ Whole school |
| **19.11.24** | Pêl-rwyd merched yr Urdd Girls' Netball | Tîm pel-rwyd/ Netball team |

| **Rhagfyr/ December** | | |
|---|---|---|
| **02.12.24** | 10:00 Cyngerdd Nadolig y Meithrin/ *Nursery Christmas concert* | Meithrin bore |
| **03.12.24** | 10:00 Cyngerdd Nadolig y Meithrin/ *Nursery Christmas concert* | Meithrin bore |
| | Chwistrelliad Ffliw/ Flu vaccination | Derbyn- Blwyddyn 6 |
| **04.12.24** | 10:00 Cyngerdd Nadolig y Derbyn/ *Reception Christmas concert* | Derbyn |
| **05.12.24** | 10:00 Cyngerdd Nadolig y Derbyn/ *Reception Christmas concert* | Derbyn |
| I'w gadarnhau/ To be confirmed | Ffair Nadolig Bryniago/ Bryiago Christmas fayre | |
| **10.12.24** | 13:30Cyngerdd Nadolig Bl.1 a 2/ Year 1 & 2 Christmas concert | Blwyddyn 1 a 2 |
| **11.12.24** | 10:00 Cyngerdd Nadolig Bl.1 a 2/ Year 1 & 2 Christmas concert | Blwyddyn 1 a 2 |
| **12.12.24** | 5:30 Gwasanaeth Nadolig CA2/ K*S2 Christmas Service* | Bl.3-6 |
| **16.12.24 - 20.12.24** | Wythnos Dathlu'r Nadolig yn YGG Bryniago/ Christmas week in YGG Bryniago | |
| **23.12.24 - 03.01.25** | Gwyliau Nadolig<br><br>*Christmas Holiday* | Ysgol gyfan/ Whole school |

| **Ionawr/ January** | | |
|---|---|---|
| **24.01.2025** | Diwrnod cariad@ (Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd: £1.50 (arian i Esietddfod Yr Urdd, 2025)<br>Red, white and green day) £1.50—money will go to Esiteddfod yr Urdd, 2025<br><br>Diwrnod Santes Dwynwen/ Saint Dwynwen's Day | Meithrin- Bl.6* Dewch yn eich dillad coch/ gwyn/ gwyrdd/ Please come dressed in red/green/white clothes |
| **28.01.2025** | Gweithdy celf Dur a Môr art workshop (Rhys Padarn) | Grwp o blant Bl.3 a 4/ Group of pupils from Year 3 and 4 |

| **Chwefror/ February** |
|---|

| | | |
|---|---|---|
| **10.02.2025** | Gig Ffa La La | Bl.1 a 2 |
| **11.02.2025** | Diwrnod diogelwch y rhyngrwyd/ Internet safety day/ | Meithrin- Bl.6 |
| **14/02.2025** | Dydd Miwsig Cymru/ Welsh Music Day | Meithrin-Bl.6* Dewch wedi gwisgo fel seren roc/ bop Please come dressed as a rock/pop star |
| **17.02.2025** | Noson Rieni/ Parents' Evening | Derbyn- Bl.6 *Byddwn yn gosod dyddiad ar gyfer y Meithrin yn ddiweddarach yn y tymor |
| **18.02.2025** | Noson Rieni/ Parents' Evening | Derbyn- Bl.6 *We will set a date for Nursery further on in the term |
| **20.02.2025** | Cyngerdd Dydd Gwyl Dewi Concert | Bl.1-6<br><br>Dewch wedi gwisgo yn eich gwisgoedd Cymreig/ Come dressed in your Welsh costumes |

| **Mawrth/ March** | | |
|---|---|---|
| **03.03.2025** | Noson rannu gwybodaeth am Llain i rieni/ Information for parents in regard to Llain residential visit | Rhieni Bl.4 a 5 Parents |
| **06.03.2025** | Diwrnod y Llyfr/ World Book Day | Meithrin- Bl.6* Dewch wedi gwisgo fel cymeriad o'ch hoff lyfr/ Please come dressed as a character from your favourite book |
| **10-14.03.2025** | Ffair Lyfrau Scholastic Book fair | Meithrin-Blwyddyn 6 |
| **06.03.24** | Rhagbrofion Eisteddfod Gylch Prelims (4pm) | Unigolion sy'n cystadlu/ Individuals who wish to compete |
| **19.03.25** | Rhagbrofion Eisteddfod Gylch Prelims (4pm) YGG Pontybrenin | Unigolion sy'n cystadlu/ Individuals who wish to compete |
| **21.03.25** | Eisteddfod Gylch/ County Eisteddfod (09:30am) | Cystadleuwyr yr Urdd/Urdd Competitors |
| **25.03.24** | Eisteddfod Sir Ddawns/ Dance County Eisteddfod: Ysgol Gyfun Pontarddulais Comprehensive | Cystadleuwyr yr Urdd/Urdd Competitors |

| **Ebrill/ April** | | |
|---|---|---|
| **02.04.24** | Eisteddfod Sir Offerynnol/ Instrumental County Eisteddfod: Ysgol Bro Dur | Cystadleuwyr yr Urdd/Urdd Competitors |
| **05.04.25** | Eisteddfod Sir Cynradd / County Eisteddfod: Neuadd y Brangwyn Hall | Cystadleuwyr yr Urdd/Urdd Competitors |
| **09-11.04.25** | Ymweliad preswyl Llain Residential course | Blwyddyn 4 a Blwyddyn 5 |
| **28.04.2025-01.05.2025** | Wythnos Werdd/ Green Week (yn cynnwys cystadleuaeth goginio cynnyrch lleol/ including local produce cooking competition) | Blwyddyn 1-6 |

| Mai/ May | | |
|---|---|---|
| **06.05.25-20.06.25** | Asesiadau Personol/ Personal assessments | Bl.2-Bl.6 |
| **21.05.2025** | Lluniau dosbarth Roz&Kirsty Class photographs | Meithrin-Blwyddyn 6 |
| **20.05.2025** | 10:00-11:00– Mabolgampau'r Meithrin Bore (/ Morning Nursery Sports Day | Meithrin Bore |
| **20.05.2025** | 1:30-2:30– Mabolgampau'r Derbyn | Derbyn |
| **23.05.2025** | 10:00-2:00- Mabolgampau Bl.1-6 | Blwyddyn 1-6 |
| **22.05.2025** | Cystadleuaeth criced 50:50 Yr Urdd/ Cricket competition | Blwyddyn 3 a 4 |
| **26.05.25-31.05.25** | Eisteddfod Dur a Môr | |

| Mehefin/ June | | |
|---|---|---|
| **02.06.2025-06.06.2025** | Gwersi beicio Bl.6 cycling lessons | Blwyddyn 6 |
| **11.06.2025** | Crucial Crew | Blwyddyn 6 |
| **18.06.2025** | Athletau'r Urdd athletics | Bl.3-6 |
| **19.06.2025** | Gweithdy tân Blwyddyn 6 Fire workshop | Blwyddyn 6 |
| **23.06.2025** | Proms Gwyr | Blwyddyn 6 |
| **24.06.2025** | Chwaraeon PontioGwyr Sports transition | Blwyddyn 6 |
| | Cwrs Preswyl YG Gwyr– Llangrannog/ Gwyr's residential visit | Blwyddyn 6 |
| **19.06.2025** | Gwasanaeth Dosbarth Blwyddyn 1 Class Assembly: 14:30 | Blwyddyn 1 |
| **27.06.2025** | Gwasanaeth Dosbarth Blwyddyn 2 Class Assembly: 14:30 | Blwyddyn 2 |

| Gorffennaf/ July | | |
|---|---|---|
| **01.07.2025** | Cystadleuaeth Athletau ysgolion Cymraeg Abertawe a Nedd a Phort Talbot Welsh Athletics competition | Tim athletau/ Athletics team |
| **04.07.2025** | Gwasanaeth Dosbarth Blwyddyn 3 Class assembly | Blwyddyn 3 |
| | Cystadleuaeth Athletau ysgolion Abertawe/ Swansea school athletics competition | Tim athletau/ Athletics team |
| **07.07.2025** | Noson taro i mewn/ Drop-in | Meithrin-Blwyddyn 6 |

| | | |
|---|---|---|
| **11.07.2025** | Gwasanaeth Dosbarth Blwyddyn 5 Class assembly | Blwyddyn 5 |
| **18.07.2025** | Gwasanaeth ffarwelio Blwyddyn 6 Leaving Assembly: 14:00 | Blwyddyn 6 |